Cynorthwy-ydd Perfformiadau
**Theatr Clwyd**
Disgrifiad Swydd

**Teulu:** Profiad
**Yn gyfrifol am**: Amherthnasol
**Yn adrodd i**: I'w gadarnhau
**Graddfa:** OP2

**Pwrpas y Swydd**
Croesawu pob ymwelydd i Theatr Clwyd gan sicrhau eu bod yn teimlo'n gartrefol ac yn ddiogel bob amser, gan ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf bob amser.

**Cyfrifoldebau allweddol**
- Tywys mewn digwyddiadau a gweithgareddau yn Theatr Clwyd ac, weithiau, oddi ar y safle, gan roi cyfarwyddiadau, cyngor gwybodus, gwirio a sganio tocynnau a chyflawni gweithdrefnau brys pan fo angen.
- Arwain a chefnogi'r Tywyswyr Gwirfoddol ar shifft.
- Fel rhan o'r tîm Profiad Ymwelwyr, efallai y bydd gofyn i chi weithio mewn ardaloedd Profiad Ymwelwyr eraill yn amodol ar argaeledd a gyda hyfforddiant angenrheidiol.

**Gwasanaethau Cwsmeriaid**
- Darparu croeso cynnes ac agos atoch chi a cheisio darparu gwasanaeth sy'n rhagori ar ddisgwyliadau ein hymwelwyr.
- Bod yn wybodus am bolisïau a gweithdrefnau, cyfleusterau a digwyddiadau Theatr Clwyd er mwyn gallu darparu gwasanaeth gwybodus.
- Sicrhau eich bod chi a'ch maes gwaith yn cael eu cyflwyno'n dda ac yn ddiogel, gan roi gwybod am unrhyw broblemau i reolwr.
- Rhagweld problemau a bod yn aelod rhagweithiol o'r tîm.
- Bod â gwybodaeth am bob sioe a digwyddiad sy'n cael eu cynnal yn Theatr Clwyd a gallu darparu gwybodaeth berthnasol a chyfredol i gwsmeriaid ar gais

**Tywys**
- Gwirio a sganio tocynnau a sicrhau mai dim ond deiliaid tocynnau dilys sy'n cael mynediad i'r ardaloedd penodol.
- Bod yn gyfarwydd â'r gofynion mynediad amrywiol sydd gan bobl; darparu cymorth rhesymol a sicrhau bod eu profiad mor gynhwysol â phosibl.
- Cyfarch a rhoi sylw i hwyrddyfodiaid, gan ddilyn polisi hwyrddyfodiaid y perfformiad.
- Cyfeirio pobl i'w seddi yn yr awditoriwm a monitro ymddygiad y gynulleidfa, gan ddarparu cymorth a, lle bo hynny'n bosibl, datrys problemau.
- Bod yn hyderus gyda'r gweithdrefnau brys a'r holl lwybrau allanfeydd tân a bod yn barod i roi gweithdrefnau ar waith os oes angen.

- Rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau ar unwaith i'r rheolwyr neu'r unigolion sy'n gallu rhoi cymorth cyntaf.
- Cynnal archwiliadau a neilltuir gyda sylw i fanylder, gan adrodd ar unrhyw broblemau iechyd a diogelwch, diogeledd a chyflwyniad i'r Tîm Rheoli ar Ddyletswydd.
- Cynorthwyo gyda chlirio sbwriel, er mwyn cynnal amgylchedd glân a diogel.

**Diogelwch a diogeledd**
- Cwblhau archwiliadau rheolaidd ar yr allanfeydd brys a'r llwybrau i sicrhau eu bod yn rhydd o rwystrau.
- Nodi a gweithredu neu adrodd ar risgiau a allai godi cyn, yn ystod ac ar ôl sioeau / digwyddiadau.
- Cefnogi Rheolwr ar Ddyletswydd y Perfformiad i drefnu i symud aelodau'r gynulleidfa a'r tîm yn ddiogel allan neu i mewn os bydd digwyddiad yn codi.

**Gwerthiant**
- Gwerthu hufen iâ, rhaglenni ac unrhyw eitemau eraill yn ôl yr angen, gan gadw'r ardaloedd gwerthu, yn ogystal ag ardaloedd yr ystafell stoc, yn daclus.
- Cadw stoc yn fanwl gywir, trin arian parod, cymryd taliadau cerdyn a sganio talebau.
- Cyfrifol am gysoni'r holl werthiant a'r stoc yn gywir.
- Cynorthwyo gyda symud a threfnu stoc.

**Arall**
- Ymgymryd â gwaith gweinyddol rhesymol pan fo angen.
- Mynychu cyfarfodydd a sesiynau hyfforddi yn ôl yr angen.
- Cyflawni unrhyw geisiadau rhesymol yn unol â gofynion y Rheolwyr Profiad Ymwelwyr
- Bydd angen gweithio gyda'r nosau a phenwythnosau, gan gynnwys dyddiau Sul, pan maent ar y rota.

**Manyleb y Person**

**Hanfodol**

- Ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol i ddemograffeg eang a phrofiad clir o wneud hynny.
- Ymrwymiad i ddarparu amgylchedd cynhwysol i gydweithwyr ac ymwelwyr.
- Hyderus wrth werthu a gallu cysoni derbyniadau a stoc yn fanwl gywir.
- Sgiliau cyfathrebu llafar rhagorol.
- Yn gallu defnyddio technoleg fel meddalwedd pwynt gwerthu, sganwyr tocynnau a chyfathrebu drwy alwadau fideo. Yn barod i ddysgu technolegau newydd wrth i'r rhain gael eu gweithredu.
- Ymddangosiad taclus, trefnus, gyda llygad am fanylder, rhagorol am gadw amser ac enw da am fod yn ddibynadwy.
- Y gallu i beidio â chynhyrfu o dan bwysau.
- Agwedd hyderus a chadarnhaol gyda dull â’i ffocws ar atebion o weithredu.
- Sgiliau rheoli amser da a'r gallu i gwblhau sawl tasg ar yr un pryd.

**Dymunol**

- Diddordeb yn y celfyddydau perfformio.
- Profiad blaenorol o weithio mewn amgylchedd gwasanaethau cwsmeriaid tebyg.
- Gwybodaeth am y gymuned sy’n lleol i Theatr Clwyd, neu barodrwydd i ddysgu amdani.
- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf.
- Cymraeg llafar ac ysgrifenedig.
- Gwybodaeth dda am dechnegau hyrwyddo, technegau gwerthu a marchnata.
- Trwydded yrru lawn.